

Adroddiad Arolygu Gofal Iechyd Annibynnol (Lle Rhoddwyd Rhybudd)

B's Aesthetics, Casnewydd

Dyddiad yr arolygiad: 23 Awst 2023

Dyddiad cyhoeddi: 23 Tachwedd 2023



Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copïau o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein [gwefan](#) neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ

Neu

Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: AGIC@llyw.cymru
Gwefan: www.agic.org.uk

ISBN Digidol 978-1-83577-186-0

© Hawlfraint y Goron 2023

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol gofal iechyd yng Nghymru

Ein diben

Gwirio bod gwasanaethau gofal iechyd yn cael eu darparu mewn ffordd sy'n mwyafu iechyd a llesiant pobl.

Ein gwerthoedd

Mae pobl wrth wraidd yr hyn yr ydym yn ei wneud. Rydym yn:

- Annibynnol - rydym yn ddiuedd, yn penderfynu pa waith rydym yn ei wneud a lle rydym yn ei wneud
- Gwrthrychol - rydym yn rhesymol ac yn deg ac yn gweithredu ar sail tystiolaeth
- Pendant - rydym yn gwneud dyfarniadau clir ac yn cymryd camau i wella safonau gwael ac amlygu'r arferion da rydym yn dod ar eu traws
- Cynhwysol - rydym yn gwerthfawrogi ac yn annog cydraddoldeb ac amrywiaeth drwy ein gwaith
- Cymesur - rydym yn ystwyth ac yn gwneud ein gwaith lle mae o'r pwys mwyaf

Ein nod

Bod yn llais dibynadwy sy'n ysgogi gwelliant mewn gofal iechyd ac sy'n dylanwadu arno

Ein blaenoriaethau

- Byddwn yn canolbwyntio ar ansawdd y gofal iechyd a ddarperir i bobl a chymunedau wrth iddynt gyrchu gwasanaethau, eu defnyddio a symud rhyngddynt
- Byddwn yn addasu ein dull gweithredu i sicrhau ein bod yn ymatebol i risgiau i ddiogelwch cleifion sy'n dod i'r amlwg
- Byddwn yn cydweithio er mwyn ysgogi'r gwaith o wella systemau a gwasanaethau ym maes gofal iechyd
- Byddwn yn cefnogi ac yn datblygu ein gweithlu i'w galluogi nhw, a'r sefydliad, i gyflawni ein blaenoriaethau.



Cynnwys

1.	Yr hyn a wnaethom	5
2.	Crynodeb o'r arolygiad	6
3.	Yr hyn a nodwyd gennym	9
	• Ansawdd Profiad y Claf	9
	• Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol	12
	• Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth	15
4.	Y camau nesaf	16
	Atodiad A - Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad	17
	Atodiad B - Cynllun gwella ar unwaith	18
	Atodiad C - Cynllun gwella.....	19

1. Yr hyn a wnaethom

Ceir manylion llawn am y ffordd rydym yn arolygu'r GIG ac yn rheoleiddio darparwyr gofal iechyd annibynnol yng Nghymru ar ein [gwefan](#).

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad lle rhoddwyd rhybudd o B's Aesthetics, 6 Churchmead, Casnewydd, NP10 8NA ar 23 Awst 2023.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys dau o Arolygwyr Gofal Iechyd AGIC.

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom wahodd y cleifion neu eu gofalwyr i gwblhau holiadur er mwyn dweud wrthym am eu profiad o ddefnyddio'r gwasanaeth. Cwblhawyd cyfanswm o bedwar holiadur. Mae'r adborth a rhai o'r sylwadau a gafwyd yn ymddangos yn yr adroddiad.

Lle bo dyfyniadau yn y cyhoeddiad hwn, mae'n bosibl eu bod wedi cael eu cyfieithu o'u hiaith wreiddiol.

Nodwch fod canfyddiadau'r arolygiad yn ymwneud â'r adeg y cynhaliwyd yr arolygiad.

Mae'r adroddiad (llawn) hwn wedi'i gynllunio ar gyfer y lleoliad, ac mae'n disgrifio'r holl ganfyddiadau sy'n ymwneud â darparu gofal diogel a dibynadwy o ansawdd uchel sy'n canolbwyntio ar gleifion unigol.

Mae fersiwn gryno o'r adroddiad, sydd wedi'i chynllunio ar gyfer aelodau'r cyhoedd, ar gael ar ein [gwefan](#).

2. Crynodeb o'r arolygiad

Ansawdd Profiad y Claf

Crynodeb cyffredinol:

Gwelsom fod B's Aesthetics yn ymrwymedig i gynnig profiad cadarnhaol i'w gleifion mewn amgylchedd dymunol â staff cyfeillgar a phroffesiynol.

Gwelsom fod systemau a phrosesau ar waith i sicrhau bod cleifion yn cael eu trin ag urddas a phroffesiynoldeb.

Gwelsom fod adborth yn cael ei gasglu a bod camau'n cael eu cymryd i weithredu ar unrhyw adborth a geir. Fodd bynnag, nid oedd unrhyw system ar gyfer casgli adborth dienw ar waith yn y clinig tan yr arolygiad gan AGIC.

Dywedodd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur AGIC fod y gwasanaeth a ddarperir yn dda iawn.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Mae polisi a phroses Galluedd Meddyliol ar waith i ystyried llesiant seicolegol ac emosiynol cleifion cyn iddynt gael triniaeth.
- Mae'r adeilad, a adeiladwyd yn ddiweddar, yn hygyrch i gadeiriau olwyn a chleifion â phroblemau symudedd.

Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

Crynodeb cyffredinol:

Gwelsom fod B's Aesthetics yn cydymffurfio â'r rheoliadau perthnasol sy'n gysylltiedig ag iechyd, diogelwch a lles staff a chleifion, er bod angen diweddarau'r polisi Atal a Rheoli Heintiau.

Roedd y clinig mewn cyflwr da ac yn cynnwys cyfarpar addas i ddarparu'r gwasanaethau a'r triniaethau y mae wedi'i gofrestru i'w darparu. Roedd pob ardal yn lân iawn ac nid oedd unrhyw beryglon amlwg.

Roedd trefniadau da ar waith i sicrhau bod y peiriant Goleuni Pwls Dwys yn cael ei ddefnyddio mewn modd priodol a diogel, a bod y staff wedi cael hyfforddiant addas.

Roedd y rheolwr cofrestredig yn wybodus iawn, yn broffesiynol ac yn dangos dealltwriaeth dda o ble a sut i gael gfael ar gyngor ac arweiniad.

Gwelsom dystiolaeth fod y cleifion yn cael gofal diogel ac effeithiol.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Rhaid i'r asesiad risg tân cyfredol gael ei ddyddio i ddangos pryd y cafodd yr asesiad ei gynnal
- Mae angen i'r polisi atal a rheoli heintiau ddangos y trefniadau cyswllt cywir i'w dilyn os bydd rhywun yn cael anaf nodwydd neu'n cael ei amlygu i haint a gludir yn y gwaed
- Dylid cadw cofnod dyddiol o'r gwiriadau ar y systemau Goleuni Pwls Dwys fel tystiolaeth bod gwiriadau Goleuni Pwls Dwys yn cael eu cynnal
- Rhoi proses wedi'i dogfennu ar waith i asesu a monitro ansawdd y gwasanaethau a ddarperir yn rheolaidd.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Roedd y safle yn lân iawn ac mewn cyflwr da, ac roedd y cyfarpar wedi cael ei wasanaethu fel sy'n ofynnol
- Roedd contract ar waith gyda Chynghorydd Diogelu rhag Laserau, ynghyd â rheolau lleol ac asesiad risg cyfredol yn ymwneud â Goleuni Pwls Dwys.
- Roedd cofnodion cleifion yn cael eu cadw'n ddiogel gan ddefnyddio amddiffyniad amlhaen
- Gwelsom fod pob aelod o'r staff wedi cwblhau hyfforddiant ar ddiogelu, a bod polisiau da ar waith.

Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Crynodeb cyffredinol:

Mae gan B's Aesthetics dîm bach ond ymroddedig o staff, gydag arweinyddiaeth dda a llinellau atebolrwydd clir.

Y perchennog/rheolwr cofrestredig oedd yn gyfrifol am reoli'r clinig o ddydd i ddydd, a oedd yn ymddangos yn ymrwymedig iawn i ddarparu gofal o ansawdd uchel i'r cleifion.

Gwelsom amrywiaeth gynhwysfawr o bolisiau a gweithdrefnau, a oedd wedi cael eu hadolygu yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, ond nid oedd y staff wedi cydlofnodi'r fersiynau diweddaraf.

Mae'r staff yn cael arfarniadau bob chwe mis ac yn cael eu hannog i fanteisio ar hyfforddiant a chyfleoedd datblygu rheolaidd.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Mae angen i'r staff gydlofnodi'r dogfennau polisi er mwyn cadarnhau eu bod wedi eu darllen a'u deall.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Roedd polisi cwynion manwl ar waith i ymdrin â phryderon cleifion
- Roedd polisi a phroses recriwtio ar waith, ynghyd â gwiriadau perthnasol yn ymwneud â phrofiad, cymwysterau ac addasrwydd.

3. Yr hyn a nodwyd gennym

Ansawdd Profiad y Claf

Adborth gan Gleifion

Cyn ein harolygiad, gwahoddwyd y practis i ddsbarthu holiaduron AGIC i'r cleifion er mwyn cael eu barn ar y gwasanaeth a ddarperir yn y practis. Cawsom gyfanswm o bedwar holiadur wedi'u cwblhau.

Roedd rhai o'r sylwadau a gafwyd gan y cleifion yn yr holiaduron yn cynnwys y canlynol:

" Mae'r lleoliad hwn yn cynnig gofal a thriniaeth o safon uchel a phroffesiynol iawn. Nid oes gennyf unrhyw bryderon am y lleoliad, y therapyddion, na'r driniaeth a gefais."

Urddas a pharch

Gwelsom fod gan B's Aesthetics un ystafell drin IPL wedi'i lleoli ar y llawr gwaelod. Roedd y drysau a'r coridorau yn ddigon llydan i gadeiriau olwyn ac roedd ramp ar gael i helpu cleifion â phroblemau symudedd i ddod i mewn. Gwelsom fod yr ystafell yn lân, yn daclus ac yn drefnus iawn. Roedd gan yr ystafell fleinds a drws gwydr barugog lle gallai'r cleifion newid mewn preifatrwydd.

Roedd polisi Cydraddoldeb ac Amrywiaeth ar waith gan y clinig ac roedd pob aelod o'r staff wedi cael hyfforddiant. Nid yw'r clinig yn defnyddio hebryngwyr fel mater o drefn ond gall eu darparu ar gais. Gwelsom fod polisi hebryngwyr ar waith.

Cyfathrebu'n effeithiol

Gwnaethom adolygu'r canllaw i gleifion a'r datganiad o ddiben a ddarparwyd i ni gan y rheolwr cofrestredig ac roedd y rhain yn cydymffurfio â'r rheoliadau. Nodwyd gennym fod y canllaw i gleifion yn cynnwys manylion cynhwysfawr yn ymwneud â'r weithdrefn gwyno, crynodeb o safbwyntiau'r cleientiaid, a thelerau ac amodau'r driniaeth, gyda'r rhestr prisiau wedi'i gyfeirio at wefan y clinig.

Gwelsom mai yn Saesneg yn unig roedd dogfennaeth, ond cadarnhaodd y rheolwr cofrestredig y gall gael copïau wedi'u cyfieithu i'r Gymraeg ar gais. Yn ogystal, mae gwasanaeth cyfieithydd ar y pryd ar gael er nad oeddent wedi cael unrhyw geisiadau am hynny hyd yma.

Dywedwyd wrthym mai drwy'r wefan yn bennaf roedd apwyntiadau'n cael eu trefnu, ond y gellir eu gwneud dros y ffôn i gleifion heb fynediad digidol.

Gwybodaeth i gleifion a chydysyniad cleifion

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom edrych ar sampl o bum cofnod claf. Roedd nodiadau cleifion unigol manwl ar gael, gyda thystiolaeth o brosesau cadw cofnodion da. Roedd y cofnodion yn dangos bod pob claf yn cael prawf croen cyn dechrau cwrs o driniaeth er mwyn helpu i bennu'r tebygolrwydd o unrhyw adweithiau niweidiol. Roedd gofyn i'r cleifion ddarparu cydysyniad ysgrifenedig cyn dechrau pob triniaeth.

Cynllunio a darparu gofal

Dywedwyd wrthym y gofynnwyd i'r cleifion roi hanes meddygol cynhwysfawr yn ystod yr ymgynghoriad cychwynnol â'r perchennog. Dywedwyd wrthym y gofynnwyd i'r cleifion am unrhyw newidiadau i'w hanes meddygol cyn unrhyw driniaethau dilynol a chofnodwyd hyn ar eu cofnodion.

Roedd tystiolaeth bod y cleifion yn cael digon o wybodaeth i wneud penderfyniad gwybodus am eu triniaeth. Dywedwyd wrthym fod y trafodaethau hyn yn cynnwys risgiau, manteision a chanlyniad tebygol y driniaeth a oedd yn cael ei chynnig yn ogystal â chanllawiau ôl-ofal.

Cytunodd pob un a ymatebodd i holiadur AGIC eu bodwedi cael digon o wybodaeth i ddeall eu hopsiynau o ran triniaeth a'u risgiau a'u manteision.

Dywedodd y rheolwr cofrestredig wrthym eu bod yn sgrinio cleifion am ddysmorffia'r corff a materion eraill er mwyn sicrhau bod y cleifion yn gwneud penderfyniadau rhesymegol ac nad ydynt yn gweithredu'n fyrbwyll.

Gwelsom fod polisi a phroses Galluedd Meddyliol ar waith yn y clinig yn nodi proses y clinig ar gyfer ystyried llesiant seicolegol ac emosiynol cleifion cyn cytuno i roi triniaeth. Dywedwyd wrthym fod yn rhaid i'r staff ymgymryd â hyfforddiant mewn perthynas â'r Ddeddf Galluedd Meddyliol fel rhan o'u datblygiad proffesiynol parhaus.

Cydraddoldeb, amrywiaeth a hawliau dynol

Cawsom ein sicrhau bod y clinig yn amgylchedd cynhwysol, p'un a oedd gan unigolyn unrhyw nodwedd warchoddedig ai peidio. Dywedwyd wrthym y byddai hawliau dynol cleifion trawsryweddol yn cael eu parchu fel mater o drefn gydag amser ychwanegol yn cael ei ddarparu cyn ac ar ôl apwyntiadau er mwyn atal cleifion rhag croesi llwybrau fel arfer safonol. Mae hyn yn sicrhau preifatrwydd y cleifion wrth iddynt gyrraedd a gadael.

Ymgysylltu â dinasyddion a'u hadborth

Dywedwyd wrthym fod adborth gan gleifion yn cael ei ddarparu naill ai mewn person neu ar-lein drwy Google, Facebook ac ar wefan y clinig ac y byddai'n cael ei gydnabod drwy ei ddychwelyd. Fodd bynnag, nodwyd gennym nad oedd cyfleuster i gleifion roi adborth mewn person yn ddiennw. Gwnaeth y rheolwr cofrestredig greu ffurflenni adborth diennw a'u gwneud ar gael adeg yr arolygiad.

Dywedodd y rheolwr cofrestredig bod yr adborth yn cael ei asesu, ei ddadansoddi a'i gyfathrebu i'r staff wrth iddo ddigwydd. Fodd bynnag, ni chafodd y broses hon ei chofnodi na'i chadw. Yn fuan wedyn creodd y rheolwr cofrestredig fatrics ar gyfer cofnodi dadansoddiad adborth yn ystod yr arolygiad.

Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

Rheoli risg ac iechyd a diogelwch

Gwelsom fod Profion Offer Cludadwy (PAT) wedi cael eu cynnal ym mis Mehefin 2023, er mwyn helpu i sicrhau bod yr offer trydanol bach yn ddiogel i'w defnyddio.

Gwelsom fod y safle yn adeilad newydd a chafodd arolygiad o'r system drydanol yn 2021. Dywedwyd wrthym fod asesiad risg tân wedi'i gynnal ym mis Gorffennaf 2023. Fodd bynnag ni chafodd yr asesiad a ddarparwyd i ni ei ddyddio. Ni allai'r rheolwr cofrestredig roi sicrwydd bod asesiadau risg priodol wedi cael eu cynnal.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod asesiad risg cyfredol ar gael a darparu tystiolaeth o hyn i AGIC.

Gwelsom fod asesiad risg cynhwysfawr wedi'i gynnal gan y Cynghorydd Diogelu rhag Laserau ym mis Mehefin 2023 ac roedd angen ei adolygu ymhellach yn 2024.

Gwnaethom arolygu'r pecyn cymorth cyntaf a nodi fod pob eitem cymorth cyntaf safonol mewn dyddiad. Fodd bynnag, roedd sawl clwt oer wedi mynd heibio ei dyddiad defnyddio. Cafodd y rhain eu tynnu allan gan y rheolwr cofrestredig ar adeg yr arolygiad.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig roi system ar waith i sicrhau bod y pecyn cymorth cyntaf yn cael ei wirio er mwyn sicrhau nad ydynt yn mynd heibio eu dyddiadau dod i ben a bod pob eitem yn gyfredol neu'n cael eu newid.

Atal a rheoli heintiau a dihalogi

Gwelsom fod y clinig yn lân ac yn daclus iawn yr olwg. Roedd y dodrefn, y cyfarpar a'r ffitiadau wedi'u gwneud o ddeunyddiau y gellir eu glanhau'n hawdd. Gwnaethom drafod y trefniadau rheoli heintiau â'r rheolwr cofrestredig gan ddod i'r casgliad eu bod yn briodol i amddiffyn y cleifion rhag achosion o groes-heintio.

Nodwyd gennym fod pob aelod o'r staff wedi cael hyfforddiant ar atal a rheoli heintiau ac y defnyddiwyd amserlenni glanhau. Gwelsom fod contract addas ar waith i gasglu a chael gwared ar wastraff clinigol.

Dywedodd pob un a gwblhaodd holiadur AGIC fod y lleoliad yn lân iawn.

Nodwyd gennym fod polisi atal a rheoli heintiau ar waith a oedd yn cynnwys cyfeiriad at y cyswllt iechyd galwedigaethol lleol os bydd rhywun yn cael anaf nodwydd neu'n cael ei amlygu i haint a gludir yn y gwaed Fodd bynnag, dywedwyd wrthym nad oedd

y clinig yn defnyddio darparwr iechyd galwedigaethol ac yn hytrach, y byddai'r staff yn cael eu cyfeirio at eu meddyg teulu eu hunain.

Mae angen i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod y polisi atal a rheoli heintiau yn cael ei addasu i ddangos y trefniadau cyswllt cywir i'w dilyn os bydd rhywun yn cael anaf nodwydd neu'n cael ei amlygu i haint a gludir yn y gwaed.

Diogelu plant a diogelu oedolion sy'n agored i niwed

Mae'r gwasanaeth wedi'i gofrestru i drin cleifion 18 oed a throsodd. Cadarnhaodd y rheolwr cofrestredig ei fod yn cydymffurfio â hyn.

Disgrifiodd y rheolwr cofrestredig sut y byddai'n delio ag unrhyw faterion diogelu ac roedd pob aelod o'r staff wedi cwblhau hyfforddiant ar ddiogelu. Roedd polisiâu ar waith ar gyfer diogelu oedolion a phlant agored i niwed, gyda gweithdrefnau clir i'w dilyn pe bai unrhyw bryderon diogelu, a oedd yn cynnwys manylion cyswllt y tîm atgyfeirio diogelu lleol.

Eglurodd y rheolwr cofrestredig nad oedd plant yn cael mynediad i'r safle, a chaiff hyn ei egluro wrth gleifion cyn eu hapwyntiad. Os daw plentyn ar y safle byddai'n rhaid gwrthod trin y claf a byddai'n rhaid gofyn iddo ad-drefnu'r apwyntiad.

Dyfeisiau, cyfarpar a systemau diagnostig meddygol

Gwelsom fod y ddyfais Goleuni Pwls Dwys yr un fath â'r un a gofrestrwyd ag AGIC a bod y gwasanaeth blynyddol a'r gwiriad calibradu mewn dyddiad. Dywedwyd wrthym fod gwiriadau dyddiol y systemau IPL yn cael eu cyflawni a'u cofnodi ond na allai'r rheolwr cofrestredig ddod o hyd i'r rhain adeg yr arolygiad.

Mae'n ofynnol i'r rheolwr cofrestredig ddarparu copiâu o gofnodion dyddiol o'r gwiriadau ar y systemau IPL er mwyn sicrhau bod y gwiriadau dyddiol ar y systemau IPL yn cael eu cynnal.

Roedd contract cyfredol ar waith gyda Chynghorydd Diogelu rhag Laserau (LPA) ac roedd rheolau lleol yn nodi sut i ddefnyddio'r peiriant IPL yn ddiogel wedi cael eu hadolygu ym mis Mehefin 2023. Fodd bynnag, nid oedd y rheolau lleol a gafodd eu hadolygu wedi'u cydlofnodi gan y gweithredwr IPL. Gwnaethom ofyn i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod y rheolau lleol yn cael eu llofnodi gan bob aelod o'r staff a oedd yn gweithredu'r cyfarpar IPL.

Ar ôl yr arolygiad, cawsom gopi o'r rheolau lleol wedi'u llofnodi gan y gweithredwr.

Roedd protocolau triniaeth ar waith ar gyfer defnyddio'r peiriant IPL ac roedd y protocolau hyn wedi cael eu cymeradwyo gan ymarferydd meddygol arbenigol.

Gofal diogel a chlinigol effeithiol

Roedd cyfarpar amddiffyn y llygaid ar gael i'r cleifion a'r gweithredwyr IPL. Nodwyd gennym fod hwn yn lân, mewn cyflwr da ac yn gyson â'r gofynion a nodwyd yn y rheolau lleol.

Roedd arwyddion y tu allan i'r ystafell driniaeth i ddangos presenoldeb y peiriant IPL. Cadarnhaodd y rheolwr cofrestredig fod stop drws yn cael ei ddefnyddio i atal mynediad heb awdurdod pan fydd y peiriant yn cael ei ddefnyddio.

Nodwyd gennym fod y gweithredwr wedi cwblhau hyfforddiant craidd gwybodaeth gyfredol a hyfforddiant yn benodol ar y ddyfais. Dywedwyd wrthym fod y peiriant yn cael ei gadw'n ddiogel ac mai dim ond â chod allwedd sy'n hysbys i'r gweithredwr yn unig y gellir ei actifadu.

Cymryd rhan mewn gweithgareddau gwella ansawdd

Nid oedd systemau wedi'u dogfennu ar waith i asesu a monitro ansawdd y gwasanaeth a ddarperir. Nodwyd gennym nad yw'r darparwr yn ceisio safbwyntiau'r cleifion fel ffordd o hysbysu gofal, yn cynnal archwiliadau o gofnodion i sicrhau bod y wybodaeth yn gyson ac yn asesu'r risgiau mewn perthynas ag iechyd a diogelwch.

Rydym yn argymhell y dylai'r rheolwr cofrestredig roi system ar waith i asesu a monitro ansawdd y gwasanaethau a ddarperir yn rheolaidd yn unol â'n rheoliadau.

Rheoli cofnodion

Nodwyd gennym bodcofnodion y cleifion wedi'u cadw'n ddiogel yn y gwasanaeth drwy ddefnyddio'r egwyddor diogelwch nionyn o amddiffyniad amlhaen, gyda theledu cylch cyfyng a larymau diogelwch wedi'u gosod. Roedd cofnodion digidol yn cael eu cadw ar system ddata'r clinig a oedd wedi'i diogelu â chyfrinair a'i hamgryptio ac roedd copïau wrth gefn yn cael eu gwneud yn rheolaidd er mwyn atal colli data.

Gwelsom dystiolaeth fod y staff wedi cael hyfforddiant ar ddiogelwch digidol. Roedd gan y clinig bolisiau cyfrinachedd cleifion, diogelu data a phreifatrwydd a diogelwch data ar waith, ac roedd pob un ohonynt wedi cael eu hadolygu yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.

Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Fframwaith llywodraethu ac atebolrwydd

Y rheolwr cofrestredig sy'n berchen ar B's Aesthetics, ac yn ei redeg gyda thîm bach ond ymrwymedig o staff.

Gwelsom amrywiaeth o bolisiau a gweithdrefnau cynhwysfawr a oedd wedi cael eu hadolygu a'u llofnodi gan y rheolwr cofrestredig yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Fodd bynnag, nid oedd y polisiau wedi cael eu cydlofnodi gan y staff, ac felly ni allem gadarnhau p'un a oeddent wedi darllen a deall y polisiau.

Rydym yn argymhell i'r rheolwr cofrestredig drefnu i'r staff gydlofnodi'r dogfennau polisi fel cadarnhad eu bod wedi cael eu darllen a'u deall.

Delio â phryderon a rheoli digwyddiadau

Roedd polisi cwynion manwl ar waith yn cynnwys cwynion ysgrifenedig a chwynion llafar, gan gynnwys amserlenni ar gyfer cydnabod a datrys y cwynion. Roedd y polisi yn nodi'r rheolwr cwynion ac yn cynnwys manylion cyswllt pellach pe byddai'r claf yn dymuno uwchgyfeirio unrhyw faterion.

Roedd crynodeb o'r weithdrefn gwyno hefyd wedi'i chynnwys yn y datganiad o ddiben a'r canllaw i gleifion. Gwelsom y cofnod o sylwadau a chwynion ar gyfer y clinig.

Cynllunio'r gweithlu, hyfforddiant a datblygiad sefydliadol

Dywedwyd wrthym fod staff newydd yn ymgymryd â phroses sefydlu a chyfnod prawf o wythnos ac yna cyfnod prawf o dri mis. Rhoddir disgrifiadau swydd i'r staff sy'n nodi eu rôl a'u cyfrifoldebau a'u contractau cyflogaeth. Maent yn cael arfarniadau bob chwe mis ac yn cael eu hannog i fanteisio ar hyfforddiant a chyfleoedd datblygu rheolaidd gan gynnwys e-ddysgu, cyrsiau ar-lein a hyfforddiant allanol.

Arferion recriwtio a chyflogi'r gweithlu

Gwelsom fod gan y clinig bolisi a phroses recriwtio ar waith, lle gall ymgeiswyr gyflwyno curriculum vitae (CV) a chânt eu hasesu mewn cyfweliad. Yn ogystal, mae'r rheolwr cofrestredig yn cynnal gwiriad gyda'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ac yn cael dau eirida er mwyn sicrhau addasrwydd. Lle bo'n berthnasol, gofynnir am dystiolaeth o gofrestrriad â'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth, a thystiolaeth o statws sgrinio iechyd ac imiwneiddio priodol.

4. Y camau nesaf

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae'n ofynnol i'r gwasanaeth gymryd camau yn eu cylch, nodir y rhain yn y ffyrdd canlynol yn atodiadau'r adroddiad hwn (lle y bônt yn gymwys):

- Atodiad A: Yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon am ddiogelwch cleifion a gafodd eu huwchgyfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith yn dweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd
- Atodiad C: Yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Dylai'r cynlluniau gwella wneud y canlynol:

- Nodi'n glir sut yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd yn ddigonol
- Sicrhau bod y dystiolaeth ofynnol yn erbyn y camau a nodwyd yn cael ei rhoi i AGIC o fewn tri mis i'r arolygiad.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r canfyddiadau yn systemig ar draws rhannau eraill o'r sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan fyddant wedi cael eu cwblhau.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar [wefan](#) AGIC.

Atodiad A - Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a gafodd eu nodi a'u huwchgyfeirio yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith, yn ystod yr arolygiad.

Pryderon uniongyrchol a nodwyd	Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion	Sut gwnaeth AGIC uwchgyfeirio'r pryder	Sut cafodd y pryder ei ddatrys
Ni nodwyd unrhyw bryderon uniongyrchol yn ystod yr arolygiad hwn.			

Atodiad B - Cynllun gwella ar unwaith

Gwasanaeth: B's Aesthetics

Dyddiad yr arolygiad: 23 Awst 2023

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiffyg cydymffurfio sy'n ymwneud â diogelwch y cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith sy'n nodi'r camau brys y mae'n eu cymryd.

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/ Rheoliad	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Ni nodwyd unrhyw bryderon uniongyrchol ynghylch diffyg cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn.				

Atodiad C - Cynllun gwella

Gwasanaeth: B's Aesthetics

Dyddiad yr arolygiad: 23 Awst 2023

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/ Rheoliad	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod asesiad risg cyfredol ar gael a darparu tystiolaeth o hyn i AGIC.	Rheoliadau 26 (4)(f) - Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011	Rwyf wedi dyddio a llofnodi'r asesiad risg tân ac wedi'i uwchlwytho.	Rebecca Rogers	Wedi'i gwblhau
Mae'n rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod y polisi atal a rheoli heintiau yn dangos y manylion cyswllt cywir os bydd rhywun yn cael anaf nodwydd neu'n cael ei amlygu i haint a gludir yn y gwaed.	Rheoliadau 9 (1)(k), (n) a 15(8)(b)	Rwyf wedi diweddarau'r polisi atal a rheoli heintiau ac wedi ychwanegu bod yn rhaid i'r staff drefnu apwyntiad meddyg teulu os byddant yn cael anaf nodwydd neu'n cael eu hamlygu i haint a gludir yn y gwaed	Rebecca Rogers	Wedi'i gwblhau

<p>Rhaid i'r rheolwr cofrestredig roi system ar waith i sicrhau bod y pecyn cymorth cyntaf yn cael ei wirio er mwyn sicrhau nad ydynt yn mynd heibio eu dyddiadau dod i ben a bod pob eitem yn gyfredol neu'n cael eui newid.</p>	<p>Y Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gwasanaethau Gofal Iechyd Annibynnol yng Nghymru, Safon 22</p> <p>Rheoliadau Iechyd a Diogelwch (Cymorth Cyntaf) 1981</p>	<p>Rwyf wedi creu taenlen i sicrhau bod y pecyn cymorth cyntaf yn cael ei wirio ac yn cael ei lofnodi bob mis i wneud yn siwr nad oes eitemau sydd wedi mynd heibio eu dyddiad defnyddio.</p>	<p>Rebecca Rogers</p>	<p>Wedi'i gwblhau ac yn barhaus</p>
<p>Mae'n ofynnol i'r rheolwr cofrestredig ddarparu copïau o gofnodion dyddiol o'r gwiriadau ar y systemau IPL er mwyn sicrhau bod y gwiriadau dyddiol ar y systemau IPL yn cael eu cynnal.</p>	<p>Rheoliad 15(2)</p>	<p>Rwyf wedi atodi copïau o'r gwiriadau system IPL</p>	<p>Rebecca Rogers</p>	<p>Wedi'i gwblhau ac yn barhaus</p>
<p>Rydym yn argymhell y dylai'r rheolwr cofrestredig roi system ar waith i asesu a monitro ansawdd y</p>	<p>Rheoliad 19</p>	<p>Rwyf wedi creu dogfen fydd yn cael ei defnyddio bob chwe mis i fonitro ansawdd y gwasanaethau a ddarperir. Bydd hyn yn cael ei</p>	<p>Rebecca Rogers</p>	<p>Wedi'i gwblhau ac yn barhaus</p>

gwasanaethau a ddarperir yn rheolaidd yn unol â'n rheoliadau.		wneud drwy ddefnyddio'r ffurflenni adborth ar gyfer staff a chleifion a fydd ar gael yn y dderbynfa gyda bocs dienw.		
Mae'n ofynnol gennym i'r rheolwr cofrestredig ddarparu tystiolaeth i AGIC bod y staff wedi cydlofnodi'r dogfennau polisi fel cadarnhad eu bod wedi eu darllen a'u deall.	Rheoliad 9	Rwyf wedi uwchlwytho'r ddogfen lle mae'r staff wedi llofnodi i dystio eu bod wedi darllen y polisiau.	Rebecca Rogers	Wedi'i gwblhau

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth

Enw (priflythrennau): Rebecca Rogers

Teitl swydd: Rheolwr Cofrestredig

Dyddiad: 19 Hydref 2023